CR 1.1 Cyflwyniad gan Joel James AS

Annwyl Syr/Fadam

Rydw i o'r farn y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i symud ystâd Neuadd Glan-elái yn Nhonysguboriau i ffin etholiadol Tonysguboriau – yn hytrach na'i lleoliad presennol yn Llanharan.

Cofion

Joel

**Joel James AS**

CR 2.1 – Cyflwyniad gan [redacted]

Rydw i'n ysgrifennu i awgrymu symud Delfryn ym Meisgyn i Ddwyrain Pont-y-clun o Ganol Pont-y-clun, fel ei fod gyda'r strydoedd eraill sydd ar yr ystâd. Mae hyn er mwyn sicrhau rhagor o effeithiolrwydd a synnwyr cyffredin o ran rheoli ar sail llywodraeth leol.

Cofion

[redacted]

CR 2.2 - Cyflwyniad gan [redacted]

Fe hoffwn i awgrymu newid ffin ward stryd Delfryn ym Meisgyn, Pont-y-clun CF728SS o Ganol Pont-y-clun i Ddwyrain Pont-y-clun.

Ar hyn o bryd, dyma'r unig stryd ar yr ystâd dai gyfan sydd mewn ward etholiadol wahanol i bob stryd arall. O safbwynt effeithlonrwydd does dim synnwyr o gwbl i'r ffaith nad yw'n safbwyntiau / materion ni gyd yn cael eu hystyried ar y cyd gyda mwyafrif y preswylwyr o'n cwmpas ni.

Cofion

[redacted]

CR 2.3 – Cyflwyniad gan Cynghorydd Sir Paul Binning

Mae anomaledd rhwng fy Ward i a Chanol Pont-y-clun, yn sgil y modd mae'r mapiau wedi'u llunio.

Rwy'n credu bod 18 stryd wahanol yn ystâd Cefn-yr-hendy. Maen nhw yn cael eu gwasanaethu gan y ffordd gylchol sengl y mae rhaid ei defnyddio i gyrraedd yno. Mae 17 o'r 18 stryd yno yn Nwyrain Pont-y-clun. Mae un, sef Delfryn, yng Nghanol Pont-y-Clun am ryw reswm anhysbys.

Mae'n ymddangos fel petai llinell wedi'i nodi ar y map ar sail ddaearyddol ac nad oes unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i'r tir ei hun, gan mai hon yw'r stryd agosaf i Fryn Hendy. Ond mae'n amlwg ei bod wedi'i gadael ar wahân ac fe ddylai gael ei chysylltu â’r gweddill.

Mae'r preswylwyr yn y stryd honno yn defnyddio'r un ffordd gylchol, mae'r un materion yn codi, ac maen nhw'n defnyddio'r un gwasanaeth bws ymhlith gwasanaethau eraill.

Efallai eu bod nhw'n cefnu ar ystâd arall ond does dim gwir gysylltiad â'r stryd honno gan mai'r farn gyffredinol yw ei bod hi mewn rhan ychydig yn wahanol o Feisgyn, un nad oes modd gyrru'n uniongyrchol iddi.

Mae mater arall yn codi iddyn nhw sef bod rhaid cerdded 15 munud i lawr i'r Orsaf Bleidleisio ym Mhont-y-clun yn hytrach nag YGG Llantrisant sydd 2 funud ar droed lan y bryn. Fe fu i rai ddod i'r orsaf bleidleisio anghywir gan eu bod nhw wedi cymryd yn ganiataol y bydden nhw yn y Ward honno.

Rwy'n gwybod yn ffaith bod hyn wedi golygu bod rhai pobl heb fwrw'u pleidlais yn y pen draw, gan ei bod hi'n rhy bell iddyn nhw gyrraedd yr orsaf arall yn yr amser oedd gyda nhw.

Diolch

Paul

CR 2.4 - Cyflwyniad gan [redacted]

Neges yw hon i wneud cais bod Delfryn, CF72 8SS yn cael ei symud i Ddwyrain Pont-y-clun, fel ei bod yn yr un Ward â gweddill strydoedd yr ystâd.

Does dim synnwyr i bethau fel y maen nhw â'r ffin wedi nodi lle y mae, gan fod y materion lleol, fel y datblygiad newydd yn cael effaith llawer mwy arnom ni nag eraill.

Diolch

[redacted]

CR 3-6 - Cyflwyniad gan Cyngor Tref Pont-y-clun

Mae Cyngor Tref Pont-y-clun wedi ystyried lleoliad presennol ffiniau Cymunedau a sut mae trigolion lleol yn gweld y rhain.

Mae nifer o anghysonderau rhwng ffiniau wardiau RhCT a ffiniau'r Cymunedau. Mae rhai ffiniau, a fyddai wedi gwneud synnwyr pan gafodd y cymunedau eu creu yn lle cyntaf, heb fod felly nawr.

Mae nifer o'r ffiniau yn elfennau naturiol. Pan nad oedd llawer o ffyrdd ac adeiladau byddai'r rhain wedi gwneud synnwyr. Nawr fodd bynnag, yn sgil datblygiadau, mae rhai ardaloedd mewn cymunedau heb wneud synnwyr.


Rydyn ni o'r farn, yn unol â safbwyntiau'r rhan fwyaf o'r trigolion/ busnesau lleol, y byddai'r newidiadau canlynol yn rhai synhwyrol.

1. Tyla Garw
    a. Ar hyn o bryd, mae'r datblygiad tai gweddol newydd yma yn ardal Cyngor Cymuned Llanhari. Serch hynny, mae'n union gerllaw Pont-y-clun a fydd y rhan fwyaf o'r trigolion (os nad y cyfan ohonyn nhw) ddim yn defnyddio gwasanaethau yn Llanhari. I gyrraedd yno, mae gofyn teithio drwy naill ai Pont-y-clun neu Lanharan. Yma bydd y trigolion yn stopio i ddefnyddio gwasanaethau. Mae Pont-y-clun gyda'i ysgolion, siopau, Meddygfeydd a Deintfeydd ac ati o fewn pellter cerdded i Dyla Garw, ac mae'r trigolion yn eu hystyried eu hunain yn rhan o Bont-y-clun.
    b. Mae Tyla Garw eisoes yn rhan o ward Gorllewin Pont-y-clun RhCT, a byddai'n gwneud synnwyr iddo gael ei symud i Bont-y-clun o safbwynt cymunedol.
2. Ystad Ddiwydiannol Lôn Coed Cae ac eraill yma
    a. Mae rhan o'r ardal yma yng Nghyngor Cymuned Llanhari a rhan arall yng Nghyngor Cymuned Llanharan. Serch hynny, maen nhw'n union gerllaw Pont-y-clun yn ddaearyddol ac yn gryn bellter o Lanhari a Llanharan. Mae'r busnesau sydd yno yn eu hysbysebu eu hunain yn rhan o Bont-y-clun.
    b. Rydyn ni'n awgrymu y dylai gael ei symud i Bont-y-clun, gyda'r A473 yn creu ffin Pont-y-clun.
3. Yr ardal o gwmpas siop Leekes, Y Pant ac ati.
    a. Byddai'r ffin rhwng Llantrisant a Phont-y-clun yn yr ardal yma yn fwy rhwydd ei hadnabod gan bobl pe byddai'n dilyn yr A473 yn hytrach na Heol y Bont-faen a'r Afon Clun. Er mwyn gwneud hyn, byddai gofyn symud tir o Gyngor Llantrisant i Gyngor Pont-y-clun.
    b. Mae pobl leol eisoes yn ystyried Leekes a'r Pant yn lleoliadau sydd ym Mhont-y-clun.
    c. Byddai'r newid yma'n cael gwared ar yr anomaledd bod un rhan o Heol y Bont-faen dan ofal Cyngor Cymuned Pont-y-clun a'r llall dan ofal Cyngor Cymuned Llantrisant; does dim rheswm amlwg pam fod pethau fel y maen nhw. Byddai'r newid yn creu ffin glir rhwydd ei hadnabod.
4. Ardal fechan rhwng yr A4119 a'r hen Fynwent.
    a. Mae ardal siâp triongl o dir sydd yn rhan o Gyngor Cymuned Pont-y-clun ar hyn o bryd, y byddai'n well iddi fod yn rhan o Gyngor Cymuned Llantrisant.
    b. Does neb yn trigo yma a byddai'r ffin yn dilyn yr A4119 a fyddai'n fwy clir i bawb.

Effaith hyn fyddai:

- Bod yr A473 yn ffin glir rhwng Pont-y-clun a'r cymunedau i'r gogledd
- Rhoi amrywiol rannau o ystadau diwydiannol o gwmpas Lôn Coed Cae mewn un Gymuned (mae pobl yr ystadau yma eisoes o'r farn mai dyma yw lleoliad yr ystadau)
- Rhoi trigolion Tyla Garw ym Mhont-y-clun; mae'r trigolion eisoes o'r farn mai dyma yw lleoliad eu cartrefi.
- Gwneud i ffiniau'r Gymuned gyfateb i ffiniau wardiau RhCT ar gyfer ward Gorllewin Pont-y-clun.
- Oni bai am Dyla Garw, fyddai hyn ddim yn cael effaith mewn gwirionedd ar fwy na llond llaw o drigolion o ran eu cymuned.

Mae'r cynllun, sydd wedi'i atodi, yn dangos y newidiadau yma.



CR 7.1-7.29 - Cyflwyniadau gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol

**Hirwaun a Y Rhigos**

- Gallai llinell y ffin oddi ar yr A465 ger Heol y Tŵr ddilyn yr afon fel sydd wedi'i ddangos isod.

**Hirwaun a Pen-y-waun**

- Mae'r ffin yn torri rhyw gymaint drwy ambell eiddo ar Lôn Glo Ager oddi ar Heol Hirwaun.

**Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr**

- Mae'r ffin y tu ôl i Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yn torri rhyw gymaint drwy dri eiddo yma. Gallai'r ffin ei hun gael ei newid fymryn fel nad yw'n sefyll ar wahân i'r fath raddau.
- Mae llinellau'r ffin yn torri drwy sawl eiddo ar Heol Gadlys a Heol Hirwaun.
- Gallai'r ffin sy'n torri drwy sawl eiddo ger Fferm Ysgubor-wen gael ei thwtio fel ei bod hi'n dilyn llinellau'n unol ag eiddo.

**Treherbert a Treorci**

- Mae'r ffin yn torri rhyw gymaint drwy ardd eiddo.

**Treorci a Pentre**

- Mae'r ffin yn torri rhyw fymryn drwy dŷ ar y Stryd Fawr yn Pentre. Byddai modd ychwanegu gweddill y stryd i Dreorci.

**Y Maerdy a Glynrhedynog**

- Mae llinell y ffin yn torri drwy eiddo, fodd bynnag mae’n eiddo an-etholiadol (dyw e ddim yn gartref, ac felly does neb o'r cyfeiriad hwnnw yn bwrw pleidlais).

**Pentre a Ystrad**

- Mae ffin yn torri drwy ddau eiddo ar Heol Ystrad yng Nghwm Rhondda.

**De Aberaman a Gogledd Aberaman**

- Mae llinell y ffin yn torri'n uniongyrchol drwy eiddo oddi ar Stryd Godreaman ond mae'n ymddangos nad yw'n eiddo etholiadol.

**Gogledd Aberaman a Dwyrain Aberdâr**

- Mae'r ffin yn torri rhyw gymaint drwy eiddo ar Heol Caerdydd yn Aberdâr, sy'n arwain at y gylchfan. Mae hefyd yn torri drwy sawl gardd ar y stryd sydd gyferbyn.

**Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar**

- Mae'r ffin yn symud oddi wrth Afon Cynon ac yn torri drwy'r llecyn bowlio drws nesa i'r clwb rygbi. Byddai modd defnyddio'r afon yn ffin naturiol fel yn achos gweddill y ffin.

**Penrhiw-ceibr a Abercynon**

- Mae'r ffin yn torri drwy faes chwarae y tu ôl i Goedlan Pentwyn. Gallai'r ffin, o bosib fod wedi'i lleoli o'i chwmpas.

**Penrhiw-ceiber a Gorllewin Aberpennar**

- Mae'r ffin yn torri drwy'r tŷ ar Fferm Penrhiwcaradog, rhyw gymaint.
- Byddai modd adolygu llinellau'r ffin o amgylch eiddo yn Heol Llanwynno

**Llwyn-y-pia a Tonypandy**

- Mae'r ffin yn torri drwy dri eiddo ar Rodfa Dingle yn Nhonypandy.

**Cwm Clydach a Tonypandy**

- Mae'r ffin yn torri drwy eiddo ar Fron Heulog yng Nghwm Clydach.

**Ynys-hir a Y Porth**

- Mae'r ffin yn torri rhyw gymaint drwy eiddo ar Deras y Coroni yn Y Porth.

**Y Porth a Cymmer**

- Byddai modd twtio mymryn ar linell y ffin o amgylch yr eiddo ger y tŷ Tan-y-Mynydd yn Y Porth.

**Pen-y-graig a Tonyrefail**

- Mae'r ffin yn torri drwy ardd ar 9 Teras Simon yn Nhonypandy.

**Cymmer a Tonyrefail**

- Mae llinell y ffin yn torri drwy gefn eiddo ar Rodfa'r Sianel yn Y Porth.

**Tref Pontypridd a Fynnon Taf**

- Mae llinell y ffin yn torri drwy uned sydd gyferbyn â Swyddfa Bost Ystâd Trefforest, hwyrach nad yw'n eiddo etholiadol ond gallai gael ei dwtio.
- Yr un peth eto lan yr hewl, mae'n torri drwy warws.

**Tref Pontypridd**

- O ran y ward gymunedol yn Ystâd ddiwydiannol Gelli-Hirion, mae'r ffin yn torri drwy uned gyferbyn â Tesco.
- Mae ffin y ward gymunedol yn torri drwy sawl tŷ ar Gwrt Y Gamlas.
- Mae'r ward gymunedol yn torri drwy un o'r tai ar Glos Llanwynno.

**Llanilltud Fardre**

- Mae'r ward gymunedol yn torri drwy eiddo yn Y Cwmwd ym Mhentre'r Eglwys.
- Mae'n torri drwy sawl stryd yn is i lawr.

**Pont-y-clun a Llanhari**

- Mae'r ffin yn torri drwy sawl uned ym Mharc Busnes Cwm Trelái ym Mhont-y-clun.

**Llanharan**

- Mae'r ward gymunedol yn torri drwy sawl eiddo mewn ystâd o dai newydd oddi ar Heol Pen-y-bont yn Llanharan.
- Mae'n parhau i ochr ogleddol yr ystâd.

CR 7.29.2 - Cyflwyniad gan y cynghorydd cymunedol Neil Feist

Mae fy awgrym (mewn llinell las ar y map) wedi'i atodi.

Yn fy marn i, dylai Llanharan gynnwys ystâd Ffordd Terry yn ei chyfanrwydd hyd at Ganolfan Gymunedol Bryncae (o leiaf). Byddai hyn yn amgylchynu rhan fawr o ystâd Ffordd y Fenter hefyd. Byddai hyn yn atal unrhyw ddryswch i etholwyr ac yn llawer mwy cynhwysol ar gyfer aelwydydd gerllaw.

Cofion gorau

Neil Feist

Cynghorydd Cymunedol Annibynnol ar gyfer ward Llanharan



CR 7.30 - Cyflwyniadau gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol

**Tonyrefail**

- Mae ward gymunedol yn torri drwy ystâd o dai newydd oddi ar Ffordd Wilfred yn Nhonyrefail.

CR 7.31 - Cyflwyniad gan Cyngor Cymuned Tonyrefail

Hoffai Cyngor Cymuned Tonyrefail a'r Cylch (TCC) wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad sydd nawr ar agor; gan drafod y ffiniau cymuned sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r newidiadau sy'n angenrheidiol at ddibenion creu cymunedau sy'n darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Yn y sylwadau yma, byddwn ni'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y gymuned sy'n dwyn yr enw **"Tonyrefail"** ; mae wardiau Coedelái, Collena, Penrhiw-fer, Tretomas, Tylcha a Thyn-y-bryn yn rhan ohoni.

Barn y Cyngor yw y dylai ffin bresennol y gymuned aros fel y mae; dyw'r Cyngor ddim o blaid unrhyw newid i'r ffin.

Wrth adolygu trefniadau llywodraethu cymunedol, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ofalu bod llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar waith; i'r perwyl yma mae'n cydnabod yr isod yn gyfiawnhad dros gadw at y ffiniau sy'n bodoli eisoes:

1. Maint, poblogaeth a ffiniau
   1.1. Dyma'r cymunedau plwyf sy'n ffinio â Thonyrefail: Llanharan, a Llantrisant i'r de, Gilfach Goch i'r gorllewin a Phontypridd i'r dwyrain. Mae'r pedair cymuned unigol yn cael eu gwasanaethu'n dda gan eu Cynghorau Cymuned a Thref eu hunain. Fyddai newid i'r ffiniau yma ddim yn sicrhau lles gorau'r cymunedau hynny.

   1.2. Mae cymunedau Pen-y-graig, Y Cymer a Threhafod i'r gogledd o Donyrefail. Pen-y-graig sydd agosaf at Donypandy, yn ddaearyddol felly ac o ran isadeiledd trafnidiaeth a manwerthu. Mae Y Cymer a Threhafod wedi'u gwahanu oddi wrth Donyrefail yn ddaearyddol yn sgil eu lleoliadau ar ochr arall y bryn, ac maen nhw'n agos at ganolbwynt cymunedol Y Porth. Unwaith yn rhagor, byddai unrhyw newidiadau i'r ffiniau gogleddol yn ehangu ardal Cyngor Cymuned Tonyrefail ac yn gwanhau effaith yr hyn mae'r Cyngor yn gallu'i gyflawni gan y byddai'n gorfod cael ei rannu rhwng rhagor o bobl. Byddai hyn yn golygu diffyg llywodraeth leol gyfleus i drigolion y cymunedau hynny.

   1.3. Mae unarddeg aelod yn rhan o TCC. Maen nhw'n cynrychioli poblogaeth o 9,600[1] etholwr, sy'n un cynghorydd i bob 873 etholwr.

   Yn unol â pholisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) ynghylch maint Cyngor, dylai cymhareb cynghorwyr i etholwyr ar gyfer ardaloedd trefol fod oddeutu 1:500. Fel mae'r wybodaeth uchod yn ei ddangos, mae TCC wedi'i dangynrychioli gan 74.6% o'i gymharu â pholisi (CBSRhCT).

   Byddai ehangu awdurdod y Cyngor o gwbl yn gwaethygu lefel y tangynrychioli ac yn gwanhau darpariaeth y Cyngor o ran llywodraeth leol effeithiol.

2. Trefniadau cydlyniant cymunedol o ran llywodraethu cymunedol
   2.1. Mae bob un o chwe ward y Cyngor yn gymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Maen nhw wedi eu lleoli mewn clystyrau ar hyd rhan o'r A4119 sy'n estyn i'r gogledd/de drwy'r dalgylch. Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael i'r wardiau: canolbwynt manwerthu, hamdden a gwasanaethau o gwmpas Stryd y Felin i'r gogledd a chanolbwynt cymunedol a manwerthu o gwmpas Coedelái yn y de. Mae swyddfa Cyngor y Gymuned wedi'i lleoli yn ganolog ac mae'n gallu cyflenwi gwasanaethau cyfleus a hygyrch a llywodraethu cymunedol.

   2.2. At ei gilydd mae'r trigolion yn uniaethu'n agos â chymeriad diwylliannol a hanesyddol y dalgylch ac mae gyda Thonyrefail ei hunaniaeth unigol ei hun. Gallai ehangu neu leihau

[1] Etholaeth 2023; cyfeirio at wybodaeth o ddogfen ymgynghori sy'n dwyn y teitl "“The County Borough of Rhondda Cynon Taf Council Existing Community Council membership”

ffiniau'r Cyngor gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol gan y byddai'n ddi-os yn golygu bod rhaid i'r Cyngor gwtogi ar ei gyflenwi o ran gwasanaethau mewn rhai ardaloedd.

**Am y rhesymau yma y mae'r Cyngor yn gwneud cais i bethau' aros fel y maen nhw o ran ffin cymuned Tonyrefail.**